

Rheoli glaswelltir

yn y rhwydwaith arddangos



FARMING
connect

cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Rhagair

Mae rheoli glaswelltir yn dda a dulliau effeithlon o reoli maetholion yn sail i bob busnes da byw llwyddiannus, oherwydd glaswellt o ansawdd uchel a gaiff ei bori yw'r porthiant rhataf a mwyaf effeithlon.



Mae'r llyfryn hwn yn cynnig trosolwg cryno o nifer o brosiectau glaswelltir sydd wedi cael eu cynnal mewn nifer fechan o ffermydd arddangos a safleoedd ffocws Cyswllt Ffermio yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r canfyddiadau a'r canlyniadau yn dangos sut mae ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y fenter hon wedi elwa trwy gyflwyno dulliau mwy effeithiol o weithio sy'n aml yn fwy arloesol hefyd, ac yn dangos sut maent wedi llwyddo, â chynghor gan arbenigwyr i gynnig arweiniad iddynt, i gynhyrchu a defnyddio glaswellt o ansawdd well, a lleihau costau cynhyrchu a mewnbynnau ar yr un pryd. Bydd maint eu helw yn cynyddu wrth i systemau pori newydd a gwell gael eu cyflwyno, bydd meillion a pherlysiâu sydd â gwreiddiau dyfnach yn helpu i wella strwythur

y pridd, a bydd gweithdrefnau monitro rheolaidd yn eu galluogi i gynyddu cyfraddau stocio heb fod angen rhagor o dir.

Mae pob busnes fferm yn y llyfryn hwn wedi cael ei annog i gyflawni 'mwy â llai' i'w helpu i weithredu strategaeth rheoli porfeydd cynaliadwy sy'n addas at y dyfodol. Heb os, mae pori cylchdro yn cynyddu o ran ei boblogrwydd, ac mae adroddiadau Prosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio yn dangos cyfraddau tyfiant glaswellt tymhorol mewn lleoliadau daearyddol a systemau ffermio gwahanol.

Rydym ni'n gobeithio y bydd y gwersi hyn sydd wedi'u dysgu ar sail tystiolaeth a'r profiad o lygad y ffynnon yn eich ysbrydoli chi i ystyried sefydlu systemau rheoli glaswelltir newydd a gwell fel rhan o fusnes eich fferm.

I gael diweddiadau am brosiectau ac arbrofion rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio.

Dewi Hughes

Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio
Gwanwyn 2020

Cyswllt Ffermio - yn eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen

Gall busnesau cymwys sydd wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio elwa o amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth, arweiniad a hyfforddiant gan Cyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r gwasanaethau wedi'u hariannu'n llawn, ac mae cymhorthdal o hyd at 80% ar gael tuag at wasanaethau eraill.

Ewch i'n gwefan i ganfod sut gallwch chi...

- gael budd o gefnogaeth cymorthdaledig i fusnesau, wedi ei deilwra i anghenion eich busnes

- meincnodi eich perfformiad a gweithio i sicrhau cynnydd a thwf
- datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus/dysgu gydol oes
- cael gwybod am yr arloesiadau technolegol diweddaraf sy'n rhan o ddatblygiadau yn y diwydiant a'r prosiectau ymchwil diweddaraf



Mesur Glaswellt - Prosiect Porfa Cymru

Nod Prosiect Porfa Cymru oedd annog ffermwyr da byw yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o laswellt, y porthiant rhataf sydd ar gael iddynt. Gofynnwyd i ffermwyr a oedd yn cymryd rhan fesur tyfiant glaswellt trwy gydol y tymor tyfu i lunio darlun o argaeledd glaswellt a chanfod pa gaeau oedd yn perfformio orau. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall ffermwyr gynllunio strategaethau pori o amgylch toriadau silwair a sicrhau y caiff gwrrtaith ei chwalu ar gaeau mewn modd sydd wedi'i dargedu.


Mae'r prosiect hwn wedi helpu ffermwyr i wneud y gorau o gynhyrchu glaswellt a gwella'r defnydd ohono,

a sicrhau buddion amgylcheddol yn sgil hynny, trwy leihau cyfanswm yr allyriadau am bob litr o laeth neu gilogram o gig a gynhyrchir.

Mae'r prosiect yn berthnasol i bob ffermwr glaswelltir, yn enwedig y rhai sy'n gallu gweithredu system pori cylchdro.

Mae'r graff isod yn dangos y tyfiant dyddiol (cilogramau o ddeunydd sych fesul hectar) yng Nghefnamlwch ger Pwllheli, yn ystod tymor tyfu 2016. Dyma enghraifft o sut gall ffermwyr lunio darlun o dyfiant glaswellt ar draws eu fferm a defnyddio'r wybodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch rheoli.

Mesuriadau yng Nghefnamlwch, Pwllheli – tyfiant dyddiol (kg DM/Ha)



Y nod i'r ffermydd oedd yn cymryd rhan oedd sicrhau bod staff allweddol yn dysgu sut i fonitro tyfiant glaswellt a gwneud y penderfyniadau gofynnol mewn perthynas â rheoli i gyflawni canlyniadau mewn perthynas â'r borfa.

Yr her oedd sicrhau bod y cyflenwad (tyfiant glaswellt) yn cyd-fynd â'r galw (cymeriant deunydd sych da byw) i gynnal lefelau cynhyrchu a ffrwythlondeb, ac ar yr un pryd, lleihau gwastraff a sicrhau'r cynhyrchiant gorau.

Negeseuon y prosiect

- Mesurwch yn wythnosol yn ystod y prif dymor tyfu – gwnewch hynny ar ddiwrnod penodol ac ar adeg benodol bob wythnos.
- Lluniwch gynllun pori wythnosol yn rhestru trefn y caeau sydd i'w pori yn ystod y saith diwrnod dilynol.
- Bydd cyflymder adfywio porfeydd yn amrywio o dyfiant araf iawn i gyfnodau o dyfiant egniol. Dylid addasu'r cynllun pori yn unol â'r cyfraddau tyfiant.
- Addaswch hyd cyfartalog cylchdroeon pori i helpu i gyflawni defnydd rhesymol o laswellt.
- Bydd cynllunio pryd a ble fydd y cylchdro pori olaf yn cychwyn yn amddiffyn eich cyflenwad o laswellt at y gwanwyn. Gellid cyflawni hyn hefyd trwy hesbio, difa neu werthu stoc yn unol â thyfiant glaswellt yn hwyr yn y tymor.

Pam ddylech chi fesur glaswellt yn rheolaidd

Mae deall cyfraddau tyfiant glaswellt fferm unigol yn bwysig iawn, a dylid sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â **gofynion y fuches neu'r ddiadell** er mwyn rheoli **cyfraddau stocio** a gofynion ar gyfer **porthi 'byffer' neu silwair**.

Wrth ddefnyddio system stocio sefydlog, mae'r ganran o'r glaswellt a ddefnyddir yn 50% neu fwy. Ar y llaw arall, gallu systemau pori lleiniau a rheoli porfeydd yn dda gynyddu'r defnydd i 80% fwy neu lai.

Mae sicrhau cynnydd o un dunnell fetrig o ran DM/Ha yn werth **£197/Ha** i ffermwyr glaswelltir Cymru.



Rheoli glaswellt yn ystod ysbeidiau sych

Gall ysbeidiau hirach o dywydd sych beri anawsterau yn achos systemau sy'n seiliedig ar laswellt. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai ffermwyr ganolbwyntio ar reoli ail-dyfiant yn ofalus. Yn 2018, ar ôl i dyfiant arafu'n sylweddol ym Mehefin a Gorffennaf, fe wnaeth un o ffermwyr Prosiect Porfa Cymru lwyddo, serch hynny, i gau'r lleiniau i gynhyrchu silwair ym mis Awst.

Cyflawnwyd hyn trwy amddiffyn gorchudd glaswellt cyfartalog y fferm ar lefel oedd yn uwch na 1,800Kg/DM/Ha, a dethol 4% o'r fuches i'w difa.

Roedd parhau i fesur yn wythnosol ynghyd â'r cyfle i ystyried cyflenwadau glaswellt a silwair yn ofalus yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

O ganlyniad, roedd glaswellt oedd yn cael ei bori yn cyfrif am lai na 50% o'r dogn am gyfnod o dair wythnos yn unig yng nghanol Gorffennaf.

Systemau pori cylchdro

Yn 2016, fe wnaeth fferm Pen y Gelli, ger Caernarfon, newid ei system pori o system stocio sefydlog i system pori cylchdro, a'r nod oedd gwella cyfanswm y glaswellt a gynhyrchir a'i ansawdd.



Cyflwyno pori cylchdro ym Mhen y Gelli

- Cafodd caeau eu hisrannu gan ddefnyddio ffensys lled-barhaol a chafnau dŵr ychwanegol i alluogi'r bloc 24Ha o dir i gael ei rannu'n unedau 1Ha.
- Cafodd gwrtaith ei chwalu ar sail canlyniadau profion pridd a sicrhawyd bod y mewnbynnau yn cyd-fynd â gofynion o ran tyfiant glaswellt.
- Fe wnaeth mesur glaswellt yn wythnosol gyfrannu at ddatblygiad cynllun pori a sicrhau gwell defnydd o laswellt, cynnydd yng nghyfraddau twf ŵyn, a chynnydd ym maint y ddiadell, o 400 i 500 o famogiaid bridio.
- Fe wnaeth pori cylchdro sicrhau cynnydd o 25% yng nghyfanswm y glaswellt oedd yn cael ei dyfu, ac roedd defnydd o laswellt yn llawer gwell hefyd. Fe wnaeth hyn gynyddu'r gyfradd stocio, gan alluogi Pen y Gelli i gynyddu maint y ddiadell.
- Fe wnaeth glaswellt o ansawdd well trwy gydol tymor pori estynedig leihau'r angen i brynu dwysfwydydd, ac fe wnaeth hynny leihau costau.

Canlyniadau'r prosiect

Cost sefydlu'r system pori cylchdro
£341.79/Ha



Cynnydd o **31,000** mewn Megajoules
(MJ)/Ha



Enillion blynyddol yn sgil buddsoddiad mewn
24Ha £5,582



Cynnydd o **1.5Kg** ym mhwsau ŵyn ar
adeg eu lladd



Buddion cyllidebu ar gyfer cynhyrchu glaswellt

Mae cynllunio ymlaen llaw a rhagweld argaeledd glaswellt yn un o egwyddorion allweddol pori cylchdro. Ym mis Medi 2018, sefydlwyd system pori cylchdro yn Nolygarn, ger Llanbadarn Fynydd, gyda chymorth gan arbenigwr ar systemau pori. Y nod oedd datblygu system gaeafu da byw yn defnyddio dim ond glaswellt. A thrwy fesur glaswellt yn rheolaidd, sefydlwyd cynllun pori manwl gywir ar gyfer yr hydref a'r gaeaf.




Canlyniadau'r prosiect

Fe wnaeth mesur rheolaidd, hyd yn oed yn ystod rhai o fisoedd y gaeaf, ddarparu'r wybodaeth a'r data canlynol:

- Fe wnaeth mesur gorchudd glaswellt gofnodi bod hynny'n 1381kgDM/Ha ar gyfartaledd.
- Mesurwyd gorchudd glaswellt cyfartalog o 1450kgDM/Ha yn y lleiniau wyna. Roedd hyn yn is na'r targed, oherwydd amgylchiadau gwlyb a rhewllyd fwy na thebyg.
- Byddai angen cychwyn rhoi porthiant ychwanegol 7 wythnos cyn adeg wyna (15 Chwefror).
- Cafodd y mamogiaid yr oedd angen porthiant ychwanegol ar eu cyfer eu cadw dan do, er mwyn gallu gorffwys y caeau a phorthi'r mamogiaid yn briodol. Roedd y rhain yn cynnwys mamogiaid cyfoen yn cario un oen oedd â sgôr cyflwr corfforol o lai na 3, a'r holl famogiaid cyfoen oedd yn cario efeilliaid neu dripledi.

Defnyddio gwbyodaeth am orchudd glaswellt i gynllunio pori yn Nolygarn yn Ionawr 2019



Negeseuon o Ddolygarn

Pori glaswellt

Fe wnaeth mesuriadau glaswellt a wnaed ym mis Ionawr ynghyd â chynghor gwerthfawr yn seiliedig ar dystiolaeth gan arbenigwr arwain at y penderfyniadau canlynol ynghylch rheoli:

- Peidiwch ag ail-bori unrhyw gaeau (yn enwedig y caeau wyna) oni bydd y gyllideb porthiant yn caniatáu hynny.
- Bydd y glaswellt yn y caeau yn werth mwy i'r mamogiaid tua 2-4 wythnos cyn wyna, a disgwylir y bydd eu gwerth o safbwynt maeth yn 12ME ac 20% o brotein.
- Rhannwch y mamogiaid yn grwpiau ar sail canlyniadau sganio a sgôr cyflwr corfforol; hyd at saith wythnos cyn wyna, gellir porthi mamog sydd â sgôr cyflwr corfforol da (3) i gyflawni gofynion cynnal y corff (1.4kgDM/Ha/diwrnod).
- Bydd y galw am borthiant gan famogiaid yn cynyddu'n sylweddol iawn yn ystod y saith wythnos olaf, ac mae dadansoddi silwair yn hanfodol er mwyn cymysgu dogneau priodol.

Porthi silwair

- Gwiriwch gymeriant y porthiant; beth mae'r mamogiaid yn ei fwyta mewn gwirionedd?
- Derbyniwch rywfaint o wastraffu (10-20%) er mwyn uchafu cymeriant.
- Nodwch pa silwair sy'n debygol o fod yn fwy blasus (egni metaboladwy a phrotein uchel, NDF isel).
- Sicrhewch fod gan bob mamog ddigon o le i gael porthiant.
- Cliriwch unrhyw borthiant sydd heb ei fwyta a rhowch hynny i'r buchod.
- Porthwch gyfanswm digonol o'r silwair a ffafrir am ddau ddiwrnod a chofnodwch faint o amser sydd ei angen i glirio'r byrnau.
- Cyfrifwch gymeriant egni a phrotein y mamogiaid - MJME/diwrnod a gramau o brotein/diwrnod.





Cynllunio i reoli maetholion



Mae cynllunio i reoli maetholion yn sicrhau mwy o arbedion ac effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd

Mae lefel pH y pridd yn **50%** o ffermydd Cymru yn is na'r hyn a argymhellir i gynhyrchu'r cnwd gorau posibl



Colledion o hyd at **9%** yn y DM a gynhyrchir mewn porfeydd sydd â pH sy'n is na 5.5 o'u cymharu â phorfeydd sydd â pH sy'n fwy na 5.5



Buddion ariannol gwella lefelau pH yn fferm arddangos Llysun

- Fe wnaeth canlyniadau profion pridd awgrymu bod diffyg calch mewn llawer o gaeau pori, ac roedd lefelau'r pH yn amrywio o 2.5 i 5.7. Felly, mae 5 tonnall fetrig yr hectar o galch wedi cael ei chwalu.
- Fe wnaiff cywiro lefel pH y pridd a phori porfeydd yn dynnach yn yr haf gynyddu'r capasiti stocio.
- Bellach, chwalir calch ar 20% o arwynebedd y fferm yn flynyddol, a nod hynny yw cynyddu lefel y pH o 5.9 i lefel sy'n agosach at 6.5. Fe wnaiff hyn helpu'r fferm i gyflawni ei photensial o 10 tonnall fetrig o DM/Ha.
- Am bob £100 a gaiff ei wario ar galch, ceir enillion o hyd at £700 o ran cynhyrchedd, ar sail y canlyniadau a gafwyd yn Llysun, ger y Trallwng.



Pam ddyliid llunio cynllun rheoli maetholion?

- Bydd defnyddio cynllun rheoli maetholion i'w botensial llawn yn sicrhau amrywiaeth o fuddion.
- Fe wnaiff iechyd y pridd wella, gan fwyafu cyfanswm y glaswellt a'r cnydau porthiant a gynhyrchir.
- Gellir gwella ymwybyddiaeth o werth economaidd gwrrtaith a gynhyrchir ar y fferm.
- Gellir darganfod sut i wneud y defnydd gorau o'r maetholion sydd ar gael mewn amrywiaeth o wrtaith, gan sicrhau bod yr effaith ar yr amgylchedd yn fychan iawn.
- Datblygir dealltwriaeth o ddulliau cyfrifol o storio a chwalu gwrrtaith da byw heb niweidio ansawdd dŵr.

Mynegeion a dargedir

pH: 6.0 (5.3 mewn priddoedd mawnog) a 6.5 ar gyfer cnydau amaethu âr
P: Mynegai 2 (16-25mg/l)
K: Mynegai 2 (121-180mg/l)
Mg: Mynegai 2 (51-100mg/l)



Mae Lower Eyton yn fferm iseldir yn nalgylch afon Dyfrdwy, ger Wrecsam. Profwyd priddoedd ym mhob cwr o'r fferm 200Ha i bennu mynegeion, rhinweddau a strwythur y pridd. Hefyd, dadansoddwyd gwrrtaith o fusnesau gwartheg biff a dofednod y fferm, i bennu eu gwerth o ran maetholion. Roedd diwrnod agored yn y fferm ffocws hon yn gyfle i ddysgu am arferion da mewn perthynas â rheoli maetholion.

Negeseuon allweddol

Dylid rhoi sylw i bob cae unigol

Fe wnaiff hyn gyd-fynd â gofynion cnydau unigol, gan ystyried cyfyngiadau a buddion caeau unigol. Mae samplu pridd ym mhob cae yn hanfodol, oherwydd yr amrywiadau a geir mewn tir ffermio.

Dylid samplu pridd yn rheolaidd

- Sampl pridd - anfonwch samplau i'r labordy i'w dadansoddi - defnyddiwch y canlyniadau i lunio eich cynllun rheoli maetholion.
- Dylech ddadansoddi pH (asidedd), nitrogen (N), ffosffad (P), potasiwm (K) a magnesiwm (Mg) bob 3 neu 4 blynedd.
- Yna, caiff cynllun rheoli maetholion ei lunio gan ymgynghorydd cymwysedig. Bydd y cynllun yn ystyried y ffactorau uchod a gwneir argymhellion ynghylch chwalu gwrrtaith i sicrhau bod tyfiant glaswellt ar ei orau.

Defnyddiwch argymhellion y 'Cod Ymarfer Amaethyddol Da' i gael canllawiau ynghylch cyfraddau chwalu

- Ni ddylid chwalu mwy na 250kg yr Ha o N ar ffurf gwrrtaith organig yn ystod cyfnod o 12 mis.
- Os chwalir cyfansymiau mawr o wrtaith organig, argymhellir cynnal profion mwy rheolaidd.
- Ni ddylid samplu pridd os yw tail neu wrtaith wedi cael ei chwalu yn ystod y chwe wythnos ddiwethaf, oherwydd ni fydd y wybodaeth ynghylch statws y pridd yn fanwl gywir.



Dylid sicrhau bod mewnbynnau yn cyd-fynd â gofynion cnydau

Fe wnaiff sicrhau bod mewnbynnau yn cyd-fynd â gofynion cnydau, ennill ac arbed arian i'r busnes ac amddiffyn yr amgylchedd hefyd.

Canlyniadau'r prosiect

- Roedd angen calch yn 19 o'r 35 cae a aseswyd oherwydd lefel isel y pH.
- Roedd perygl o lygredd gwasgaredig oherwydd y mynegeion uchel o faetholion oedd yn bresennol yn y priddoedd.
- Roedd mynegai ffosffad dau gae yn 4, felly ni ddylai'r fferm chwalu ffosffad ar y caeau hyn.
- Cyfrifwyd mai dyma oedd gwerth y tail a gynhyrchwyd ar y fferm:
 - £4,580 o 300 o wartheg sy'n cael eu cadw dan do am bum mis.
 - £1,019 o 5,000 o adar.

Strategaethau pori er mwyn pesgi wŷn

Bydd rhoi sylw i'r system pori yn sicrhau gwelliannau o ran perfformiad anifeiliaid. Cafodd manteision ac anfanteision pori cylchdro eu gwerthuso yn Fferm Ochor, Tregaron. Fe wnaeth mesur a chymharu amrywiaeth o ffactorau ganiatáu i'r busnes werthuso'r strategaeth pori orau er mwyn pesgi wŷn.

Targedau'r prosiect

- System rheoli glaswelltir sy'n sicrhau glaswellt o ansawdd uchel.
- Cynnydd ym mhwysau wŷn ar adeg eu lladd.
- Cynhyrchu mwy o laswellt.
- Tymor pori hirach.
- Ail-hau hen borfeydd gan ddefnyddio cymysgedd o rygwellt a meillion.
- Cynhyrchu mwy o DM.
- Tyfiant yn gynharach yn y gwanwyn.
- Ymateb gwell i wrtaith.
- Cyfle i asesu ac ymdrin ag iechyd y ddiadell, megis beichiau llyngyr trwy gyfrwng profion cyfrif wyau ysgarthol (FEC).

Canlyniadau'r prosiect

- Cafwyd cynnydd o **8%** yn nifer yr wŷn sy'n cyflawni manylebau'r farchnad.



- Fe wnaeth cyllidebu gwell ynghylch glaswellt wella'r dewisiadau pori pan gedwir wŷn sy'n methu cyflawni manyleb y farchnad.
- Sicrhawyd cynnydd o **1.5kg** ym mhwysau wŷn sy'n barod i'w lladd gan ddefnyddio system pori cylchdro, o gymharu â system stocio sefydlog gonfensiynol.
- Fe wnaeth sefyllfa llif arian y busnes wella.



Cymhariaeth o gostau fferm Ochor

Defaid y porthid dwysfwydydd iddynt –
Maint Elw Gros o £774.00 fesul 150 o wŷn



Defaid yn pori glaswellt - **Maint Elw Gros**
o £1,188 fesul 150 o wŷn



Dewisiadau i'r dyfodol o ran cynydu porthiant

Pam ddylid cynnwys meillion mewn system glaswelltir?

- Gwella ffrwythlondeb y pridd - defnyddir llai o wrtaith.
- Atal chwyn.
- Bydd y pridd yn diraddio llai.
- Bydd y mwyneiddio'n gwella yn y pridd.
- Cynorthwyo i atal dŵr.
- Gall meillion ymdopi â pH isel.
- Bydd hynny'n ymateb i batrymau cynyddol amrywiol y tywydd.
- Gwella strwythur y pridd.
- Gwella deunydd organig y pridd.
- Gwella argaeledd maetholion.

Ffocws ar effeithlonrwydd porthiant a mwy o ddefnydd o gnydau porthi

Mae cynnwys meillion mewn cymysgeddau hadau ar gyfer glaswelltir yn ddull o leihau cyfanswm y gwrtaith a gaiff ei chwalu a'r perygl o lygredd gwasgaredig mewn dŵr. Yn ogystal â gwella ffrwythlondeb y pridd a lleihau'r angen am nitrogen artiffisial, gall defnydd effeithiol ohonynt weithredu hefyd fel dull o atal chwyn ymledol.

Bydd meillion unflwydd yn cynhyrchu cnwd sylweddol ac mae ganddynt nodweddion sy'n eu galluogi i ymdopi â sychder. Gallent gynnig cnwd amgen defnyddiol i ffermwyr wrth i batrymau'r hinsawdd barhau i newid yn y DU.



Meillion unflwydd

Bydd cylchred bywyd meillion unflwydd yn para blwyddyn. Gellir eu tyfu o hadau yn unig ac nid ydynt yn atgenhedlu'n llystyfiannol. Maent yn boblogaidd yn yr Unol Daleithiau, ble cânt eu defnyddio mewn mannau sy'n dueddol o brofi

sychder. Mae diddordeb yn eu defnydd yn cynyddu yn y DU oherwydd eu potensial i ddarparu cynydu swmpus a all gynhyrchu tri thoriad o silwair yn ogystal â phorfa yn hwyr yn y tymor er mwyn pesgi wŷn. Fodd bynnag, gallant fod yn eu sefydlu.

Arbrofi â meillion yng Nghymru

Fe wnaeth Cyswllt Ffermio gydweithio â fferm Llyn Rhys, ger Wrecsam, i arbrofi â meillion balansa. Aeth y prosiect ati'n benodol i asesu hyfywedd y meillion unflwydd hyn, eu haddasrwydd i hinsawdd Cymru a'u gallu i gynhyrchu porthiant a phorfa, o'i gymharu â chnydau porthiant eraill.

Mae meillion balansa wedi addasu i hinsoddau tymherus sy'n cael glawiad o 350-600mm yn flynyddol. Er bod hinsawdd Wrecsam yn dymherus, mae'r glawiad blynyddol (785mm) yn sylweddol.

Roedd y meillion balansa yn ddull da o atal chwyn yn Llyn Rhys. Cynhyrchwyd silwair defnyddiol o ansawdd da, ond mae angen rhagor o ymchwil ynghylch dyfalbarhad y cnwd dros sawl toriad.

Canlyniadau'r prosiect

	Meillion balansa â rhygwellt Eidalaid	Gwywair glaswellt (byrnau mawr)	Silwair glaswellt confensiynol
Protein Amrwd	14.5%	11.7%	9.2%
Egni Metaboladwy	11.5	11.6	9.5
Gwerth D	72	72	59
Deunydd sych	45.8%	81.9%	42.7%
Egni metaboladwy eplesadwy	9.4	10.5	7.5
pH	4.8	5.7	4.5
Siwgrau g/Kg	98	78	62

Fe wnaeth defnyddio silwair wedi'i wneud o feillion balansa a rhygwellt Eidalaid olygu y gellid disgwyl pythefnos ychwanegol cyn gorfod rhoi porthiant ychwanegol. Arbedion o **£1.68/pen** yn achos mamogiaid cyfoen oedd yn cario efeilliaid.



Gall gweddillion nitrogen o'r meillion unflwydd gynorthwyo i wella cnydau rhygwellt lluosflwydd.



Cyswllt Ffermio



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



08456 000 813



farmingconnect@menterabusnes.co.uk



[Facebook.com/CyswlltFfermio](https://www.facebook.com/CyswlltFfermio)



[@CyswlltFfermio](https://twitter.com/CyswlltFfermio)